# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD HYDREF 2020

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 21ain o Hydref, 2020** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Llawn y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **Ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Huw Rowlands.<br>Yn bresennol roedd Elin Evans, Nerys Evans, Rhodri Dwyfor, Aeron M Jones, Michelle Williams, Bryn Hughes, Gwilym Thomas, Jason Hunt, Gwilym Williams, Eleri Thomas (Clerc) , Gillian Wynne Thomas (Clerc) ag un aelod o'r cyhoedd. |
| 2. | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tom Ellis a Peter Roberts. |
| 3. | **Datgan Buddiant** |
| | Dim |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 16eg o Fedi, 2020 a materion yn codi** |
| | Cynigiodd AMJ gywirdeb y cofnodion gyda NE yn eilio |
| 5. | **Cyflwyniad gan Dion Roberts, Prosiect uwch Gwyrfai** |
| | Yn anffodus oherwydd problemau technegol nid oedd Dion yn bresennol ar y noson, danfonodd y diweddariad canlynol i GWT cyn y cyfarfod:<br><br>1) Grantiau walio i dirfeddianwyr lleol allan mewn cytundebau i wella rheolaeth stoc ar y mynydd.<br>2) Gwaith rheoli rhostir yn parhau, gwaith ail flwyddyn ar i ganol rŵan.<br>3) Llwybr aml bwrpas o Gors Goch lawr at fynediad chwarel Tryfan - a dosbarth awyr agored Gors Goch – Bydd yn gyrru manylion manwl ymlaen yforu.<br>4) Plannu Coed mewn ardaloedd ar wasgar ar draws y comin – bydd yn gyrru mlaen llythyr ymgynghoriad a map o'r ardaloedd. Pob trigolyn o fewn 200m o unrhyw safle arfaethedig yn derbyn llythyr ymgynghoriad.<br>5) Murlun wal allanol Ysgol Rhosgadfan wedi derbyn caniatâd cynllunio – am yrru drafft y murlun yn ei flaen i'r clerc.<br><br>Cyfyngiadau Covid-19 wedi arafu dipyn ar rhai agweddau o'r prosiect ond ar y cyfan y prosiect yn rhedeg yn ok, ac ar drac i orffen erbyn Mawrth 2021.<br><br>*Y Clerc i ymestyn gwahoddiad iddo erbyn cyfarfod Tachwedd.* |

*Llofnodwyd gan.............................................................................. Dyddiad.......................................................*

| 6. | **Materion Misol:** |
|---|---|
| | a) Swydd y Clerc - estyn croeso i'r Clerc newydd<br>Croesawodd y Cadeirydd y Clerc i'w chyfarfod cyntaf a chyflwynodd aelodau'r Cyngor iddi.<br><br>b) Grant Loteri<br>Adroddodd AMJ bod y cynllun yn mynd yn dda gyda niferoedd yn codi'n wythnosol a hyd yn hyn gyda 99.8% o adborth cadarnhaol. Gyda'r cyllid sydd ganddo ar hyn o bryd mae yn gallu paratoi y cinio tan 20fed o Ragfyr. Esboniodd ei fod yn chwilio am arian ychwanegol drwy gynllun Steve Morgan Foundation i gael £2,500 i baratoi hamper Nadolig i bob un sydd yn derbyn cinio. Diolchodd NE iddo am ei waith caled ar ran trigolion Rhostryfan ac GW iddo ar ran trigolion Rhosgadfan.<br><br>c) PR – Wal ger Mountain Rangers wedi torri<br>Penderfynwyd bydd MW ac AMJ yn ymweld ar safle ar ddiwedd y cyfarfod.<br><br>d) Mynwent Cefnfaes – trefnu is-bwyllgor mynwent i asesiad risg (BH)<br>Adroddodd BH bod angen ystyried cyflwr un neu ddau o feinciau hefyd y gordyfiant o'i hamgylch. Nodwyd gan yr aelodau eraill bod coed yn tyfu yn sawdl y waliau hefyd a gordyfiant rhwng y rhes gefn a'r wal.<br>*Penderfynwyd trefnu cyfarfod ar y safle wedi'r clo presennol ddarfod.*<br><br>e) JH – Frondeg /C14/0905/24/LL – darn wedi ei ffensio<br>Esboniodd JH ei fod wedi derbyn cais am wybodaeth am ddarn o dir wedi ei ffensio rhwng rhif 6 ac 18 ar y safle, nid oedd wedi derbyn esboniad cyflawn hyd yn hyn.<br>*Y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir am esboniad.*<br><br>f) JH - Frondeg - gwaith heb ei orffen, angen gwneud y ffordd ar wal ar y gornel wedi disgyn / torri. Pwy sydd yn gwneud y gwaith adeiladu?<br>Esboniodd AWJ mae contractwr o Rhyl oedd nawr yn gyfrifol am y gwaith.<br>*Y Clerc i gysylltu ag Adran Cynllunio CG i adrodd pryderon y Cyngor nad yw'r gwaith wedi ei gwblhau gan y Contractwr blaenorol .*<br><br>g) NE - Prynu ffon i'r clerc gyda pheiriant ateb arno + gliniadur newydd.<br>Anfoneb am liniadur yn cael ei gyflwyno heno, adroddodd GWT rhan hwylustod bydd hawsach ganddi ddefnyddio ffon symudol ei hun.<br>Awgrymodd MW sicrhau bod y peiriant ateb wedi ei droi ymlaen.<br><br>h) BH - Marchogaeth ceffylau drwy Stad Bro Wyled<br>Adroddodd GW bod y mater nawr wedi ei ddatrys yn dilyn trafodaeth gyda chymdogion y stad a'r marchogion.<br><br>i) Tudalen Facebook y Cyngor<br>I. Cais am wybodaeth os bydd y biniau halen yn cael ei llenwi eleni<br>Adrodd AMJ ei fod yn obeithiol i dderbyn cadarnhad gan y Cyngor Sir y byddent yn cyflawni llenwi'r biniau halen eleni am ddim oherwydd y gwaith sydd yn mynd ymlaen yn Rhostryfan. Bydd yn diweddaru'r Cyngor Cymuned fel y bydd yn derbyn newyddion pellach. |

*Llofnodwyd gan............................................................................. Dyddiad......................................................*

| | |
|---|---|
| | II. Cyfarfod y sgwâr Rhostryfan<br>Adroddodd AWJ bydd cyfarfod yn cael ei dreialu ar lein nos Lun y 26. 10. 20 a chyfarfod ffurfiol gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a chwmni Griffiths & Co' yn cael ei gynnal ymhen wythnos wedyn. Esboniodd bydd yn hanfodol derbyn cwestiynau i'r cyfarfod wythnos o flaen llaw er mwyn hwyluso atebion.<br><br>III. Gyrrwr peryglus beic modur<br>Roedd hysbysiad wedi ei bostio ar ran BH ar dudalen F.B flaenorol y Cyngor yn dilyn cwynion oedd wedi ei dderbyn gan drigolion am yrrwr feic modur peryglus yn y gymuned. Roedd yn falch i ddiweddaru yn dilyn yr hysbysiad fod y mater nawr wedi tawelu.<br><br>j) EE - Cyngor gysidro buddsoddi mewn cyfrifiaduron i aelodau sydd heb.<br>Adroddod yr aelodau sydd heb gyfrifiadur eu bod yn hapusach i gadw i'r trefniadau presennol.<br><br>k) NE – Cwyn am chwyddiant modurwyr trwy bentref Rhos Isaf<br>*Y Clerc i adrodd pryderon y Cyngor i G.G. gan bwysleisio gwelliant i drefniadau i gwmnïau danfon.*<br><br>l) AWJ - Cais am Orchymyn i ddiwygio Map Swyddogol i ychwanegu llwybr troed cyhoeddus i'r Map a'r Datganiad Swyddogol. Hawl tramwy cyhoeddus honedig Rhostryfan LL54 7LU (Cyfeirnod Grid AO: SH4957) gan Adra Amgylchedd Cyngor Gwynedd.<br>Sylwadau i'w derbyn erbyn 11eg o Dachwedd, 2020<br>Gwirfoddololdd NE roi sylwadau arno i'r Cyngor - *Y clerc i'w ychwanegu ar dudalen FB y Cyngor.*<br><br>m) GW - Cwyn am ddŵr yn cronni a difrod wrth Gae Garw heibio Bowydd ac Islwyn yn Rhosisaf hefyd y llwybr wrth gefn Bryn Glas, at Gae Garw.<br>*Y clerc i adrodd i Adran Lwybrau, Cyngor Gwynedd*.<br><br>n) HR - Campfa ar lwybr cyhoeddus angen sylw ger Hen Gastell, Llanwnda ar ochor y ffordd osgoi.<br>*Y clerc i adrodd i Adran Lwybrau, Cyngor Gwynedd.* |
| 7. | **Derbyn Adroddiadau** |
| | Dim |
| 8. | **Materion Ariannol** |
| | Cynigwyd y cyfrifon canlynol yn gywir gan BH ac eiliodd AWJ<br><br>**1. Cyfrif Cadw**<br>Balans a ddygwyd ymlaen (16.09.20) 60373.08<br>+ Llog 1.28<br><br>**Balans ar derfyn busnes 21ain o Hydref, 2020 £60374.36** |

*Llofnodwyd gan.......................................................................... Dyddiad....................................................*

**2. Cyfrif Siec**

| | | |
|---|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (16.09.20) | **14,906.99** | |
| + claddedigaeth | | 1120.00 |
| - 101483 Cyflog y Clerc | | 587.60 |
| - 101482 Cyllid y Wlad | | 136.40 |
| - 101481 D H Roberts (ffens Bryngwyn) | | 1500.00 |
| - 101484 A&M Catering (Cinio Dydd Sul 1 – Arian Loteri) | | 408.00 |
| - 101485 Wyn Williams (torri gwair) | | 1395.50 |
| **Balans ar derfyn busnes 21ain o Hydref, 2020** | | **£11,999.49** |
| **- Gwariant Grant loteri gymunedol** - 21.10.20 Balans | | £9040.98 |

**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 21ain o Hydref, 2020**

| | |
|---|---|
| Cyflog y Clerc (Eleri) | 485.70 |
| Cyllid y Wlad | 110.80 |
| Cyflog y Clerc (Gillian) | 468.60 |
| Cyllid y Wlad | 106.40 |
| Celtic Computers (gliniadur i'r Clerc) | 189.99 |
| G L Jones Playgrounds (Cae chwarae Rhostryfan) | 1104.00 |
| Gwalch (Cynnal a chadw'r fynwent) | 2296.22 |
| A&M Catering (Cinio Dydd Sul – Arian Loteri) | 2440.75 |
| Aeron Jones (Stamps – Arian Loteri) | 151.98 |
| **Cyfanswm** | **£ 7354.44** |

9. **Materion Cynllunio**

a) Diweddariad cais Bryn Derwen, Rhostryfan.
Cais C20/0562/24/LL - Bryn Derwen, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7NB - dymchwel fferm dy presennol ynghyd a chodi tŷ newydd a gosod tanc trin newydd.
Er bod y cynghorwyr wedi derbyn y cais ym mis Awst, roedd pryderon wedi ei godi gan rhai aelodau ar ôl edrych mewn manylder ar y cais yng nghyfarfod Medi. Penderfynwyd ail-edrych ar y cais a'r ôl derbyn yr holl waith papur gan Gyngor Gwynedd.
Rhannwyd ymateb i'r pryderon am bolisïau a chanllawiau cynllunio gan y pensaer o flaen llaw gan E.T.
Wedi trafodaeth ar y pryderon cynigiodd AWJ gefnogi'r cais, eiliodd GT a chytunodd pawb.
*Y clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.*

b) E-bost - ynglŷn â thrigolion Sŵn y Môr - Cadnant Planning
Adroddodd AWJ bod trigolion Llanwnda wedi gyrru pryderon iddo am fynedfa'r safle sydd ar hyn o bryd wedi ei drefnu i ymuno a lon Rhostryfan. Gan fod cais am 16 o dai ychwanegol i'r 24 gwreiddiol wedi ei wneud roedd wedi cynnig gwelliant i'r trefniadau a bod hen fynediad y Mount Pleasant yn cael ei ddefnyddio fel prif fynedfa'r safle.

*Llofnodwyd gan.......................................................................... Dyddiad.....................................................*

| | |
|---|---|
| | Ychwanegodd bod y cynllun yn cynnig lleoli'r fflatiau ar y blaen gyda'r byngalos yn gefn. Roedd hefyd wedi cynnig gwelliant i hyn sef byngalos yn ffrynt a'r fflatiau yn gefn fel eu bod yn gweddu yn well gyda beth sydd yn yr ardal yn barod.<br>Awgrymodd bydd modd cefnogi neu wrthwynebu'r cais terfynol pan fydd yn cael ei gyhoeddi.<br>*AMJ i lunio sylwadau'r Cyngor i'r clerc ei yrru ymlaen i'r Cyngor Sir.* |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | a) E-bost gan Gyngor Cymuned Llandwrog - Meddygfa Corwen House, Penygroes.<br>Cais i gefnogi Cyngor Cymuned Llandwrog i lythyru ar Bwrdd Iechyd yn eu hannog i symud ymlaen i ddatrys y broblem o bobol yn cael eu gorfodi i sefyll yn y glaw i dderbyn eu prescriptiwn a chwyddiant moduron wrth feddygfa Corwen House yn dilyn Corwen House a Llys Meddyg ymuno.<br>Cynigiodd AWJ cefnogi'r cais, cytunodd pawb.<br>*Y Clerc i weithredu.*<br><br>b) E-bost - Problem draeniad ger giât pen Llwybr Bryngwyn<br>Gan fod cwestiynau yn codi am union leoliad y broblem a pherchnogion y safle cytunodd RD ymweld ar safle.<br>Y mater i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf** |
| | **Dyddiad: 18fed o Dachwedd, 2020**<br>**Lleoliad: Ar-lein drwy ddefnyddio Microsoft Teams** |

**Diolchodd y Cadeirydd a gweddill aelodau'r Cyngor i ET am ei gwaith trefnus ac effeithiol am y ddwy flynedd diwethaf a dymunodd pawb yn dda iddi wrth ymddiswyddo fel Clerc.**

*Llofnodwyd gan............................................................................ Dyddiad.....................................................*